



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
Dydd Iau 9 Tachwedd 2017
9:30 – 12:30
Optic, Parc Busnes Llanelwy

Presennol: Margaret Hanson (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Mary Wimbury (gadawodd am 11.45 am), Morwena Edwards, Nicola Stubbins, Morag Olsen, Jane Davies (ar ran Neil Ayling), Caroline Turner, Clare Field, y Cyng. Joan Lowe, Richard Debicki, y Cyng. Bobby Feeley, y Cyng. Christine Jones, Lynda Colwell, Dave Worrall, Teresa Owen, Dawn Docx, Jenny Williams (cyrhaeddodd am 10.00 am)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Gareth Roberts, Neil Ayling, Vin West, Debbie Shaffer, Rob Smith, y Cyng. Liz Roberts, y Cyng. Llinos Medi Huws, Wendy Jones, Richard Weigh

Hefyd yn Lee Robinson a Vicky Jones, Bwrdd Cynllunio Ardal
Bresennol: Iwan Trefor Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Eitem	Nodiadau	Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau.</u> Croesawodd yr Is-Gadeirydd bawb i'r cyfarfod, cyflwynodd bawb ei hun a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.	
2.	<u>Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru</u> Roedd Lee Robinson, Cadeirydd y Bwrdd Cynllunio Ardal, a Vicky Jones, Rheolwr Comisiynu a Datblygu Rhanbarthol, yn bresennol i gyflwyno adroddiad ar Fwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal, nad yw'n gorff statudol, wedi'i sefydlu ers 2010 o ganlyniad i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ceir saith bwrdd o'r fath yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn gorff partneriaeth sy'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar lefel ranbarthol, yn seiliedig ar angen. Mae'r gwaith hefyd yn rhyngwynebu â gwaith y Bwrdd Iechyd o ran edrych ar rannu sut y mae cyllid yn cael ei strwythuro a sut y gellid cydweithio. Mae'r bwrdd hwn yn derbyn cyllid gan amryw o ffrydiau ariannu.	

Mae cyllideb refeniw £4.9 miliwn Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi clustnodi cyllid ar gyfer triniaethau, gan ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar ac adfer. Cyllideb cyfalaf Cymru gyfan, cyllideb iechyd £5 miliwn, cyllideb Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, cyllid Gwasanaeth Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi a chyllid awdurdod lleol.

Darparodd VJ wybodaeth am strwythur y bwrdd a'r trefniadau adrodd ac atebolrwydd. Mae gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gyfrifoldeb statudol dros gamddefnyddio sylweddau ac mae trefniadau adrodd wedi'u cytuno arnynt er mwyn i'r Bwrdd Cynllunio Ardal adrodd wrth bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru hefyd yn dod â phartneriaid y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ynghyd mewn corff rhanbarthol.

Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru wedi nodi 5 thema allweddol, ynghyd â 6 maes blaenoriaeth, sef:

1. Gwella sut ydym ni'n cydweithio
2. Gwella tegwch gwasanaethau sy'n briodol i'r anghenion dynodedig
3. Hyrwyddo taith adfer gynaliadwy
4. Mabwysiadu dull sy'n ystyried y teulu cyfan
5. Darparu ar gyfer anghenion pobl ifanc
6. Lleihau effaith camddefnyddio sylweddau ar gymunedau

Dyweddodd VJ bod y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn o ran datblygu'r bartneriaeth a'r strwythurau oherwydd amrywiaeth a daearyddiaeth yr ardal. Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ddatblygu ar gyfer y trefniadau adrodd ac atebolrwydd, sy'n cael ei ddiweddarau a'i wella'n barhaus. Mae cyfarwyddyd strategol ac anghenion sefydlu wedi'u diwallu drwy wasanaethau comisiynu lleol ac mae tîm rhanbarthol cydlynol wedi'i sefydlu ar gyfer yr ardal.

Mae ymarfer mapio gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant a phobl ifanc wedi'i gynnal ar draws Gogledd Cymru er mwyn gweld y darlun rhanbarthol mewn perthynas â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynir.

Holodd NS pwy oedd yn cynrychioli CSDd ar y grŵp cyflawni. Holwyd pwy yw cynrychiolwyr Ynys Môn a'r Bwrdd Iechyd.

Cadarnhaodd VJ mai Wyn Thomas yw cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd ac mai'r arweinydd tai yw cynrychiolydd yr awdurdod lleol. Roedd LR wedi cadarnhau i ddechrau nad oedd yn rhaid i bob awdurdod lleol fod yn bresennol, dim ond cynrychiolwyr adrannau penodol sydd wedi'u henwebu gan grwpiau rhanbarthol. Cadarnhaodd LR bod y Bwrdd Cynllunio Ardal yn gweithio ar wella'r aelodaeth yn sgil canllawiau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017.

	<p>Nid oedd NS yn siŵr a oedd y Bwrdd Cynllunio Ardal wedi bod drwy broses lywodraethu fewnol CSDd. Bu i'r Bwrdd lechyd ddweud hyn yn ogystal.</p> <p>Amlygodd CF, o ran y gwasanaethau sydd ar gael, nad yw'r ymarfer mapio yn adlewyrchu'r anghenion na'r bylchau h.y. CAMHS, Timau Troseddau leuenctid heb eu cynrychioli.</p> <p>Nid yw'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn comisiynu'r gwasanaethau iechyd, dim ond cefnogi'r gwasanaethau.</p> <p>Dywedodd ME bod cymuned a diogelwch yng Ngwynedd yn un o nifer o drafodaethau llywodraethu yn ystod cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, mae cyrff anstatudol eraill yn gweld hyn yn her i'r bartneriaeth. Mae LR a VJ wedi bod yn gweithio'n galed i wneud hyn yn eglur ac nid yw'n adlewyrchiad o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni. Mae ME yn ystyried bod yr un peth yn wir am drosedd yn erbyn merched a cham-drin domestig, sy'n adrodd wrth Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru. Mae yna her yn y Gorllewin (gweithio'n rhanbarthol) yn y maes hwn o ran sicrhau bod ardaloedd gwledig yn derbyn yr un gwasanaeth ag ardaloedd trefol.</p> <p>Gofynnodd CT sut mae gwasanaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cyd-fynd â gwasanaethau a darpariaethau gwledig, a pha wasanaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr a theuluoedd.</p> <p>Cadarnhaodd VJ bod hyn yn her anferthol. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn parhau i ymgymryd â gwaith i leoli ystod eang o wasanaethau allgymorth yn y gymuned. Ers 2013 mae'r cyllid wedi'i ganolbwyntio ar atal, gweithio gyda phartneriaid h.y. Heddlu Gogledd Cymru, CBSW – gan gysylltu â thai a digartrefedd a chyfuno fel nad yw gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau yn bodoli mewn gwactod.</p> <p>Holodd BF am y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd, a'r amserlen, i sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario'n effeithlon.</p> <p>Dywedodd VJ nad oes yn rhaid i'r Bwrdd Cynllunio Ardal gynhyrchu adroddiad blynyddol. Mae perfformiad y bwrdd yn cael ei reoli, ond cytunwyd y byddai adroddiad gyda'r canlyniadau yn fuddiol.</p> <p>Holodd RD a yw'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn ymwybodol o 'County Lines' Heddlu Gogledd Cymru, mater sy'n fygythiad mawr ar draws Gogledd Cymru, a'r adnoddau sydd eu hagen i ymateb i'r bygythiadau.</p> <p>Cadarnhaodd LR a VJ bod y bwrdd yn ymwybodol o hyn a bod Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cynllunio Ardal wedi ymrwymo i weithio gydag unigolion diamddiffyn i drawsnewid eu bywydau.</p>	
--	---	--

	<p>Soniodd MH am y materion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas â 'Trefn Reoli Aur', o ran y gallu i sicrhau bod pawb wedi ymrwymo i'r trefniadau ymateb mewn argyfwng pan fo digwyddiadau mawr.</p> <p>Cadarnhaodd VJ, wrth drafod 'oedolion', bod hyn hefyd yn cynnwys pobl hŷn a bod gwaith ar ddefnydd pobl hŷn o sylweddau yn cael ei flaenoriaethu gan fod pobl yn byw'n hirach.</p> <p>Cytunodd VJ i gysylltu BJE ynglŷn â DEWIS.</p> <p>O ran aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, dylai pob partner wirio a yw'r Bwrdd Cynllunio Ardal wedi bod trwy broses lywodraethu eu sefydliad a gwirio pwy sydd yn eu cynrychioli.</p>	<p>VJ i gysylltu â BJE ynglŷn â DEWIS</p> <p>MH/MO i drafod cynrychiolw yr y Bwrdd Iechyd</p>
<p>3.</p>	<p><u>Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.</u> Wedi'i ohirio tan y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.</p>	<p>Eu cynnwys ar raglen mis Rhagfyr – RW</p>
<p>4.</p>	<p><u>Ffrydiau gwaith sydd o flaenoriaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – cwmpas a chynllun cyflawni i'w cymeradwyo gan y Bwrdd: Plant gydag anghenion cymhleth</u></p> <p>Bu i Bethan Jones, Cyfarwyddwr Rhanbarth BIPBC, sy'n arwain y gwaith hwn, fynychu'r cyfarfod i ddarparu gwybodaeth am y cynnydd hyd yma ar y camau gweithredu a ofynnwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn mis Medi, pan gymeradwywyd y cwmpas a'r cynllun cyflawni gan y bwrdd.</p> <p>Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys cynllun prosiect manylach a rhagor o wybodaeth am amserlenni, a mynychodd BJ ar gyfer hyn.</p> <p>Cadarnhaodd BJ bod y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant, sy'n arwain y maes gwasanaeth hwn ar ran Bwrdd Rhan 9, yn gweithio'n dda gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, 3 aelod awdurdod lleol, Heddlu Gogledd Cymru, gwasanaethau gwirfoddol, CAMHS, addysg, iechyd meddwl ac ieuencid. Dywedwyd bod y bwrdd hwn yn fforwm defnyddiol i drafod gwasanaethau plant. Derbyniodd BJ bod angen newid aelodaeth yr awdurdodau lleol i gynnwys cynrychiolydd o bob awdurdod lleol y gogledd.</p> <p>Cododd BJ y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith wedi'i wneud ar y Mil Diwrnod Cyntaf a rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod. • Mae KD wedi derbyn y dasg o ddatblygu'r diffiniad o blant gydag anghenion cymhleth. • Mae adroddiad ar Cyllidebau Cyfun Gwasanaethau Plant hefyd wedi'i lunio. • Mae gweithdy wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener 24 Tachwedd lle gwahoddir aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i fynychu er mwyn trafod gofynion y cynllun 	<p>Diweddarau aelodaeth Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Plant</p> <p>BJ i anfon copi electronig at BJE er mwyn ei gylchredeg</p>

<p>5.</p>	<p><u>Byw'n Iachach, Cadw'n Iach</u> Mynychodd Jane Trowman, BIPBC, i gyflwyno blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd o ran y rhaglen Byw'n Iachach, Cadw'n Iach.</p> <p>Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y cynllun deng mlynedd, gan ystyried sut mae penderfyniadau yn effeithio ar bobl rŵan ac yn y dyfodol a'r heriau sy'n wynebu pob gwasanaeth yn dilyn adborth a dderbyniwyd yn ystod digwyddiadau a thrwy arolygon amrywiol.</p> <p>Trafodwyd a chytunwyd ar y nodau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwella iechyd, lles a lleihau anghydraddoldebau • Darparu gofal yn nes at y cartref • Gwella diogelwch ac ansawdd pob gwasanaeth • Parchu pobl a'u hurddas • Gwrando ar bobl a dysgu o'u profiadau • Defnyddio'r hyn sydd gennym yn ddoeth, archwilio syniadau newydd a dysgu o ymchwil • Cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff • Canolbwyntio ar iechyd emosiynol ac iechyd meddwl • Cefnogi plant er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl iddynt mewn bywyd • Cefnogi pobl i ofalu am eu hiechyd eu hunain. <p>Dywedodd JT bod dros gant o ymrwymïadau eraill (nid ymgynghoriadau ffurfiol) wedi'u cynllunio drwy fynychu cyfarfodydd amrywiol.</p> <p>Dywedodd LC bod y trydydd sector wedi ennill gwobr drwy gydweithio gyda gwasanaethau tai a rhyddhau o ysbyty – mae hyn hefyd yn cysylltu â digartrefedd.</p> <p>Nid oedd ME yn ymwybodol os oedd yr adroddiad 'Byw'n Iachach, Cadw'n Iach' yn bwydo i mewn i gynlluniau lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan fod y ddau adroddiad yn debyg. Dyma gyfle i gael un ddogfen ac un gyfres o flaenoriaethau.</p> <p>Nododd TO y bydd yr holl strategaethau/cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr asesiadau lles ac asesiadau poblogaeth. Mae hon yn agwedd bwysig o ystyried y synergeddau.</p> <p>Dywedodd JT bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael strategaeth. Mi fydd strategaeth y Bwrdd Iechyd a strategaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn debyg, ond mae'r ddau yr un mor bwysig â'i gilydd.</p>	
-----------	---	--

<p>6.</p>	<p><u>Datganiad gan y Gweinidog, 10 Hydref 2017 – Integreiddio lechyd a Gofal Cymdeithasol</u></p> <p>Adrodd NS ar hyn yn dilyn derbyn trawsgrifiad gan y Gweinidog Rebecca Evans ar 10.10.17. Bu i NS, ME, RW ac RN (Bwrdd lechyd) fynychu cyfarfod Llywodraeth Cymru, gan gynrychioli'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyfrannu at ddatganiad y Gweinidog. Yn dilyn trafodaeth, daeth yn amlwg na fydd yr un partner yn cyflawni cyllidebau cyfun rhanbarthol cartrefi gofal erbyn 2018, er bod y crynodeb ar y diwedd yn dweud bod pawb ar y trywydd cywir i gwrdd â'r dyddiad cau.</p> <p>Roedd araith y Gweinidog yn cydnabod bod rhanbarthau wedi gwneud cynnydd ond roedd hefyd yn cydnabod bod materion yn parhau o ran gallu rhai rhanbarthau i weithredu'r gofyniad hwn yn llawn erbyn mis Ebrill 2018. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon ar y dull darparu, bydd yn ystyried dewisiadau ar gyfer ymyrraeth mwy uniongyrchol.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth bellach, derbyniwyd llythyr arall gan Matthew Hall yn amlinellu lefel y gefnogaeth sydd ar gael gan y Gweinidog er mwyn sefydlu cyllidebau cyfun. Mae'r llythyr hefyd yn nodi y bydd yr ymyrraeth uniongyrchol yn dechrau cyn mis Ebrill 2019 os na fydd unrhyw gynnydd.</p> <p>Bydd cyfarfod pellach gyda Llywodraeth Cymru ar 20.11.17 i drafod prosesau cydgomisiynu i gefnogi cronfeydd cyfun. Bydd BJE yn mynychu, ond mae angen rhywun arall o Ogledd Cymru i fynychu hefyd.</p>	<p>Cysylltwch â BJE os ydych chi'n gallu mynychu</p>
<p>7.</p>	<p><u>Cyllido'r Trydydd Sector</u></p> <p>Cyflwynodd DW bapur 'Adolygu'r cyllid ar gyfer y trydydd sector yng Ngogledd Cymru'. Mae'r papur yn ystyried sut mae modd i'r trydydd sector weithio'n fwy strategol i gefnogi'r broses gomisiynu.</p> <p>Roedd DW yn gwerthfawrogi'r cyfarfod a gafwyd gyda BJE ac NS lle trafodwyd cyllidebau cyfun a'r trydydd sector.</p> <p>Mae'r ddogfen yn nodi pryderon ynghylch sut caiff gwasanaethau eu comisiynu yn y sector:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyrir bod y system Proactis yn niweidiol i sefydliadau bychain gydag anghysondeb o ran y system gymeradwyo a'r broses dendro. • Lefel y twf mewn perthynas â phrosesau caffael, gyda chyfleodd cydgynhyrchu yn cael eu colli a diffyg gallu i ddylanwadu. • Pryder ynghylch graddfeydd amser byr i ddatgan diddordeb, nad yw'n rhoi digon o amser i'r sector gyflwyno ceisiadau 	

	<p>Credodd DW y byddai 'Leading Integrated and Collaborative Commissioning' yn ddogfen ddefnyddiol i'r Bwrdd, sy'n archwilio rôl byrddau partneriaeth rhanbarthol a chomisiynu.</p> <p>Mae'r trydydd sector yn ceisio cydweithio yn y ffordd orau bosibl yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn rhanbarthol.</p> <p>Cyn cyflwyno'r pryderon hyn i'r Grŵp Arweinyddiaeth, gofynnodd JW sut y gall y trydydd sector symud ymlaen o ran y cynnig. Dywedodd DW bod ar y trydydd sector angen gweithio gyda'r CVC's ac amlygu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y sector.</p> <p>Croesawodd ME y papur, ond dywedodd hefyd bod peth dryswch oherwydd bod cynrychiolwyr o'r trydydd sector yng Ngwynedd, sef Mantell Gwynedd, Age Cymru a grwpiau cyswllt, i drafod sut mae cydgynhyrchu yn gweithio yn y trydydd sector. Mae'n siomedig iawn clywed nad yw'r trydydd sector yn teimlo bod ganddynt lais.</p> <p>Cytunodd DW y ceir meysydd effeithiol o ymrwymiad yn lleol a sirol.</p> <p>Dywedodd BF fod Llywodraeth y DU yn dechrau sylweddoli pa mor bwysig yw cynnwys y trydydd sector a'r buddion y gellid eu gwireddu gan bawb drwy rwydweithio priodol ar draws y rhanbarth.</p>	<p>DW i anfon y ddogfen at BJE</p> <p>I'w drafod yng nghyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth GC – gwahodd DW</p>
<p>8.</p>	<p><u>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</u> Roedd Iwan Trefor Jones yn bresennol ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.</p> <p>Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn grŵp o gynrychiolwyr o'r sector preifat, sector cyhoeddus, a sefydliadau addysg uwch a phellach yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd ar draws y rhanbarth. Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais Economaidd oherwydd bod perfformiad economaidd Gogledd Cymru ar ei hôl hi o gymharu ag ardaloedd eraill, bod economi Gogledd Cymru yn newid ac oherwydd yr angen i newid dulliau gweithio.</p> <p>Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'i amcanion yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog busnesau i fuddsoddi yng Ngogledd Cymru . • Helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleodd cadwyn gyflenwi. • Annog addysgu/dysgu sgiliau gwaith. 	

Gwaith y Bwrdd Uchelgais Economaidd yw:

- Rhoi rôl hanfodol i'r sector preifat weithio'n agos gyda'r partneriaid ac ymateb i anghenion y sector busnes a'r sector preifat drwy feithrin diwylliant o ymddiriedaeth a chynllunio.
- Arddangos ac ychwanegu gwerth i bolisi cenedlaethol yn ogystal â darparu barn ranbarthol ac ymateb i sector busnes Gogledd Cymru, gan gyflwyno negeseuon i Gaerdydd, y DU a Brwsel.
- Datblygu 'Tîm Gogledd Cymru' i feithrin perthnasau economaidd agos gyda rhanbarthau cyfagos a chael y gorau o adnoddau cenedlaethol.
- Manteisio ar gyfleodd sy'n bodoli ar gyfer Gogledd Cymru e.e. Wylfa Newydd.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwahodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gyflwyno cynnig twf ar gyfer Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae 12 o brosiectau yn cael eu datblygu ar gyfer y cynnig, gan gynnwys seilwaith, safleoedd, parciau busnes a chysylltiadau cludiant. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn ymateb i anghenion y farchnad lafur. Mae hon yn rhaglen uchelgeisiol a fydd yn effeithio ar berfformiad economaidd y rhanbarth ac yn cael budd ar y rhaglen gymdeithasol ar draws Gogledd Cymru.

Bydd Pwerdy'r Gogledd yn cael budd uniongyrchol ar y rhanbarth gyfan h.y. sector ynni a gweithio gyda mentrau bach a chanolig. Mae coridor ynni yn cael ei ddatblygu i amlygu cyfleoedd yn y sector hwn.

Defnyddiodd ITJ Fanceinion fel enghraifft, lle bu i bwerau a chyllidebau dirprwyedig, wedi'u datganoli gan Lywodraeth y DU, rymuso Manceinion i wneud ei benderfyniadau ei hun. Byddai'n rhaid i Ogledd Cymru sicrhau bod y drefn lywodraethu yn gywir cyn derbyn y gyfrifoldeb hon.

Mae ITJ yn hyderus bod y mater o ran y farchnad lafur yn flaenoriaeth uchel, gyda newid yn y gyllideb i ganolbwyntio ar bobl. Mae'n rhaid i'r twf fod yn dwf cynhwysol. Dylid hybu cydraddoldeb ar draws y rhanbarth ac annog darparwyr hyfforddiant i fod yn fwy ymatebol i'r anghenion, gan wella sgiliau'r gweithlu a pharu gwaith ac anghenion cyflogwyr.

Amlygodd TO pwysigrwydd y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhannau mwyaf gwledig o Ogledd Cymru yn ogystal â choridor yr A55, gan sicrhau nad oes mwy o anghyfartaleddau.

Amlygodd y Cyng. CJ bwysigrwydd gwella seilwaith cludiant a digidol a gwella'r cysylltiadau ag ardaloedd menter yn y rhanbarth.

	<p>Roedd JW yn falch o glywed bod gofal cymdeithasol, iechyd a lles wedi'i gynnwys yn y neges allweddol a dywedodd bod y gwasanaeth, yn ystod y cyfarfod sgiliau, yn cael ei weld fel sector sgiliau yn hytrach na sector twf.</p>	
9.	<p><u>Adborth am y cyfarfod gyda Chris Stevens</u> Soniodd Lynda Colwell, Prif Swyddog Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, am gyfarfod diweddar y bu iddi fynychu yng Nghaerdydd gyda Chris Stevens, Pennaeth Partneriaethau ac Integreiddio Llywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol.</p> <p>Roedd y cyfarfod yn gyfle i drafod rhan y trydydd sector gyda byrddau yng Nghymru. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol iawn a bu iddo amlygu buddion cynnwys y trydydd sector, a oedd yn cael ei groesawu gan bawb.</p>	
10.	<p><u>Cytuno ar 5 neges allweddol ar gyfer y Ddogfen Gyfathrebu</u> Oherwydd cyfyngiadau amser, ni thrafodwyd yr eitem hon.</p>	
	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u> (Codwyd dau bryder gan MW cyn iddi adael am 11.45am) Cadarnhaodd JW, mewn perthynas â chais MW i weld dogfennau yn gynt, bod yr adroddiad ar yr Aseiad Poblogaeth wedi'i gyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru er mwyn derbyn adborth darparwyr.</p> <p>Cododd MW bryder arall ynghylch cyllido'r trydydd sector, gwerth cymdeithasol a safbwyntiau darparwyr yn cael eu trafod yn genedlaethol, tybir, os yw darparwyr yn y sector cyhoeddus, nad oes modd iddynt drafod gwerth cymdeithasol. Roedd ar MW eisiau sicrhau nad yw hyn yn cael ei golli oherwydd y posibilrwydd o gyfleoedd ariannu/cartrefi gofal yn gallu darparu gwasanaeth.</p> <p>Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Dawn Docx (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) a chydabod ei chyfraniad i'r Bwrdd. Bydd Dawn yn gadael ei swydd yng Ngogledd Cymru i ymgymryd â her newydd fel Is-Swyddog Tân Sirol Manceinion Fwyaf.</p> <p>Cadarnhaodd BJE y bydd cylch gorchwyl y Bwrdd ar raglen y cyfarfod nesaf ac y bydd trafodaeth ynghylch y weledigaeth yn ystod cyfarfod mis Ionawr.</p>	<p>DD i anfon manylion ei holynydd, Gary Brandwick, at RW</p>
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf Dydd Gwener 8 Rhagfyr 2015, 9:30 – 12:30, Optic, Parc Busnes Llanelwy</p>	